



Care & Repair Carmarthenshire
Gofal a Thrwsio Sir Gaerfyrddin

Help i Symud



A fydd eich cartref yn dod yn her wrth i chi heneiddio?

Gallai manteision symud i gartref llai a mwy cyfleus, efallai mewn lleoliad gyda mwy o wasanaethau, wneud gwahaniaeth mawr i'ch iechyd a'ch llesiant, a'ch galluogi i fyw'n annibynnol am flynyddoedd i ddod.

Cysylltwch â ni
01554 744 300



Ydych chi'n meddwl am symud tŷ?

A yw'r syniad o symud tŷ yn eich llethu ac ydych chi angen help i ymchwilio eich opsiynau? Gall cynllunio gofalus osgoi gofid, pryder a straen di-angen.

Pam symud?

- Gostwng biliau rhedeg cartref
- Symud i gartref mwy cyfleus a allai fod yn fwy addas ar gyfer eich anghenion
- Bod yn nes at gymuned fwy cefnogol

Pwy ydym ni?

Gofal a Thrwsio yw "Hyrwyddwr Tai Pobl Hŷn". Rydym yn fudiad elusennol sy'n gweithredu ledled Cymru i sicrhau fod gan bob person hŷn gartref diogel, clyd ac addas ar gyfer eu hanghenion.

Beth yw'r Cynllun Help i Symud?

Mae'r cynllun Help i Symud yn cynnig cyngor **AM DDIM** i bobl hŷn sy'n byw yn Sir Gaerfyrddin.

Mae'r gwasanaeth yn cefnogi pobl hŷn drwy'r camau sy'n gysylltiedig â symud tŷ.

Rydym yma i helpu pan ydych yn barod i symud.

Sut ydym yn darparu ein gwasanaethau?

Gallwn gynnig yr help a'r cymorth dilynol:

- Ymweld â chi yn eich cartref i drafod eich pryderon am eich cartref
- Ymchwilio gyda chi y gwahanol opsiynau tai sydd ar gael, fel y gallwch wneud dewis gwybodus i weddu i'ch anghenion.
- Pan fyddwch yn barod, gallwn eich cefnogi i ddod o hyd i gartref arall sy'n fwy addas ar gyfer eich anghenion.
- Eich cefnogi gyda dewisiadau anodd sy'n gysylltiedig â gwerthu neu symud tŷ.
- Cynorthwyo i drafod gyda gwerthwyr tai, cwmnïau symud, cyfreithwyr a/neu'r Cyngor.
- Gallwn hefyd roi gwybodaeth a chynghor i chi am y gwasanaethau lleol eraill sydd ar gael.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch ag:

Emma Harris-Jones

E-bost:

office@careandrepaircarms.org.uk

Rhif cyswllt: 01554 744 300

